Ym mis Hydref 2022, bydd Diwrnod Gwerthoedd y Byd, yn nodi dwy flynedd ers i'r Bwrdd Iechyd ddechrau cyflwyno ei Werthoedd a'i Ymddygiadau sydd wedi'u llunio i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n gweithwyr yn ogystal ag i'n cleifion a'n defnyddwyr gwasanaethau ar draws y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.

Mae ein ffocws sefydliadol yn gadarn ar wreiddio'r gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn mewn ymarfer o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i greu diwylliant y mae'n teimlo'n falch ohono, gyda gwerthoedd penodol wrth ei wraidd y gall pawb sy'n dod i gysylltiad â nhw eu teimlo a'u deall. Trwy weithio mewn ffordd sy'n gyson â'n gwerthoedd a'n hymddygiad sefydliadol ar bob cyfle, gallwn gyflawni'r tri hyn.

**OUR VALUES  
HELP US BE AT  
OUR BEST**



[Cliciwch yma i ddarganfod mwy](#)

**#CTMArEinGorau**



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg  
University Health Board

## Gwasanaethau a Phartneriaid y Bwrdd Iechyd

### Y Gwasanaethau y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn eu cynnal:

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am gynnal y sefydliadau canlynol ar ran Llywodraeth Cymru a GIG Cymru:

- **Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**
- **Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys**
- **Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru**

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol:

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid mewn amrywiaeth o swyddogaethau, gan gynnwys:

- **cyrff iechyd eraill**
- **awdurdodau lleol**
- **y gwasanaeth ambiwlans**
- **yr heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub**
- **y sector gwirfoddol/elusennol**

**[Cliciwch yma i wylio ein Ffilm AGM ddiweddaraf](#)**

## Rôl y Bwrdd

**Mae pob un o aelodau Bwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn rhannu'r cyfrifoldeb corfforaethol am lunio strategaeth, sicrhau atebolrwydd, monitro perfformiad a llywio diwylliant, ynghyd â sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu mor effeithiol â phosib.**

Mae'r Bwrdd, sy'n cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, naw Aelod Annibynnol, tri Aelod Cyswllt, y Prif Weithredwr ac wyth Cyfarwyddwr Gweithredol yn darparu arweiniad a chyfeiriad, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.

Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n deall anghenion poblogaeth y Bwrdd Iechyd a phwysigrwydd sicrhau amrywiaeth, cynhwysiant a hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd gofyn i'r Cadeirydd newydd roi arweiniad cryf i'r Bwrdd a chynnal gwerthoedd GIG Cymru.

Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd statws y sefydliad o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Cymru. Er bod cynnydd da wedi'i wneud ers mis Ebrill 2019 mae mwy i'w wneud o hyd o dan arweiniad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.



## Rôl y Cadeirydd

### Cyfrifoldebau allweddol - Bydd y Cadeirydd yn:

**Mae Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio strategaeth, gweledigaeth, pwrpas a diwylliant y Bwrdd Iechyd. Mae'n dwyn y Bwrdd Iechyd i gyfrif o ran darparu gwasanaethau, ei berfformiad, cyflawni ei strategaeth a sicrhau gwerth am arian. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau i'r Bwrdd Iechyd, staff a'r cyhoedd yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol.**

Dan arweiniad Cadeirydd annibynnol a chan gynnwys cymysgedd o Aelodau Gweithredol ac Aelodau Annibynnol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyfunol am berfformiad y Bwrdd Iechyd. Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethiant effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled Cymru.

### Strategaeth

- Arwain y gwaith o ddatblygu gweledigaeth strategol ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gan nodi a gwireddu'r potensial a'r sgiliau cynhenid o fewn y sefydliad i ddatblygu gwasanaeth arloesol sydd ar flaen y gad yn rhyngwladol;
- Darparu barn a chynghor annibynnol ar faterion ansawdd, strategaeth, gweledigaeth, perfformiad, adnoddau, a safonau ymddygiad;
- Cynnig her adeiladol, dylanwad a chefnogaeth i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol i ddatblygu cynigion ar strategaethau o'r fath;
- Cefnogi cyd-aelodau'r Bwrdd i ddarparu arweiniad o fewn fframwaith o reolaethau darbodus ac effeithiol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad;

### Cynllunio

- Bod yn atebol am berfformiad y Bwrdd ar lefelau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy gymeradwyo a chyflwyno cynllun tymor canolig tair blynedd a chynllun cyflawni blynyddol.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn craffu'n effeithiol ar y cynllun tymor canolig tair blynedd, gan sicrhau ei fod yn sefydlu amcanion clir i gyflawni'r strategaeth; yn cwmpasu'r elfennau angenrheidiol o ran ansawdd, gweithlu, adnoddau gweithredol ac ariannol i'r sefydliad allu cyflawni ei amcanion; a'i fod yn adolygu ei berfformiad yn rheolaidd yn erbyn y cynllun.

### Perfformiad

## Rôl y Cadeirydd

### Cyfrifoldebau allweddol - Bydd y Cadeirydd yn:

- Derbyn, adolygu a defnyddio prosesau craffu priodol o ran ansawdd, perfformiad, gweithlu a data a gwybodaeth ariannol er mwyn cymharu cyflawniadau yn erbyn targedau a, lle bo angen, helpu i roi camau adferol ar waith.
- Chwilio am amcanion heriol i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd ar gyfer gwella;
- Sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith i reoli i sicrhau hyfywedd ariannol y Bwrdd lechyd.

### Llywodraethiant

- Sicrhau bod y Prif Weithredwr yn atebol am holl ystod ei gyfrifoldebau.
- Darparu arweinyddiaeth a chyfathrebu cryf, effeithiol a gweladwy ar draws ehangder cyfrifoldebau'r Bwrdd lechyd, yn fewnol drwy'r Bwrdd lechyd ac yn allanol drwy'r cysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid o fewn a thu allan i'r GIG ar lefel genedlaethol, gymunedol ac awdurdodau lleol.
- Sicrhau ymrwymiad y Bwrdd lechyd i'r safonau llywodraethiant uchaf, fel ei fod yn gweithredu er budd y boblogaeth a'r partneriaid y mae'n eu gwasanaethu, a'i fod yn cael ei weld yn bod yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir a'r adnoddau a ddefnyddir;
- Sicrhau bod gwybodaeth gywir, amserol a chlir yn cael ei darparu i'r Bwrdd a'r cyfarwyddwyr i fodloni gofynion statudol;
- Sicrhau bod rheolaethau mewnol a systemau rheoli risg yn gadarn ac yn cael eu llywodraethu'n dda;
- Dadansoddi a dehongli gwybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd, gan ofyn am eglurhad, sicrwydd pellach, a rhannu gwybodaeth lle bynnag y bo modd;
- Sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn cydymffurfio â'i Reolau Sefydlog, ac â'r polisiau, y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol;

## Rôl y Cadeirydd

### Cyfrifoldebau allweddol - Bydd y Cadeirydd yn:

#### Diwylliant ac Ymddygiad

- Dangos Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sef Egwyddorion Nolan) - anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd, ac arweinyddiaeth a sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r egwyddorion;
- Sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn dangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a diwylliant, ac yn ymrwymo i hybu, cofleidio, a phrif ffrydio'r Gymraeg;
- Sefydlu diwylliant sy'n annog staff, cleifion, teuluoedd, a'r cyhoedd i godi pryderon sydd wedyn yn cael sylw priodol;
- Sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn cofleidio ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant ar gyfer ei holl boblogaeth, cleifion, staff, a rhanddeiliaid;
- Sicrhau'r safonau uchaf o dreiddgarwch, uniondeb, a llywodraethiant, a sicrhau bod trefniadau llywodraethiant y Bwrdd lechyd yn cydymffurfio â'r arferion gorau a'r gofynion statudol;
- Darparu arweiniad tosturiol gweladwy wrth gefnogi a hyrwyddo diwylliant iach i'r Bwrdd lechyd ac adlewyrchu hyn, a gwerthoedd y Bwrdd lechyd, yn ei ymddygiad ei hun;
- Dod â phrofiad, gwybodaeth a dylanwad y gorffennol i waith y Bwrdd er mwyn hyrwyddo arloesedd a chwilfrydedd a herio normau;

#### Ymgysylltu

- Meithrin a chynnal cysylltiadau agos rhwng partneriaid y Bwrdd lechyd a grwpiau rhanddeiliaid i hyrwyddo gweithrediad effeithiol gweithgareddau'r corff iechyd;
- Darparu arweinyddiaeth i gefnogi ac annog cydweithio effeithiol gyda phartneriaid, yn benodol gyda Byrddau lechyd, Ymddiriedolaethau GIG, Awdurdodau lechyd Arbennig, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau cynllunio a darparu gwasanaethau diogel a gwasanaethau effeithiol;
- Mynychu cyfarfodydd Llywodraeth Cymru, grwpiau cymheiriaid cyrff iechyd a chyfarfodydd rhanddeiliaid eraill lle bo angen;
- Ymgymryd â rôl llysgennad allanol, gan gyflawni yn llygad y cyhoedd ac ennyn hyder y cyhoedd;
- Gyda chefnogaeth, bodloni'r digwyliad i ddeall busnes y Bwrdd lechyd trwy ymwneud gweithredol;



## Rôl y Cadeirydd

### Cyfrifoldebau allweddol - Bydd y Cadeirydd yn:

#### Gweithgareddau'r Bwrdd

- Cynllunio cyfarfodydd y Bwrdd gyda'r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd.
- Hwyluso cyfraniad effeithiol gan Aelodau'r Bwrdd a sicrhau perthynas adeiladol o fewn y sefydliad a rhwng Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol.
- Cadeirio cyfarfodydd bwrdd y Bwrdd lechyd a sesiynau datblygu arweiniol a chyfarfodydd eraill o aelodau fel y bo'n briodol;
- Cymryd rhan yn llawn yng ngwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau, gan gynnwys ymgysylltu cyn ac ar ôl cyfarfod a gwerthusiadau blynyddol i gefnogi llywodraethiant da;
- Ar y cyd ag Aelodau eraill y Bwrdd, cyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd Cronfa Elusennol y Bwrdd lechyd, y mae'r Bwrdd yn gweithredu fel yr ymddiriedolwr corfforaethol ar ei chyfer.
- Cael arfarniad perfformiad personol blynyddol, gan gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygiad ychwanegol a amlygwyd o ganlyniad i'r broses werthuso er mwyn sicrhau bod amcanion personol yn cael eu cyflawni



## Manyleb y Person

**Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.**

### Meini Prawf Hanfodol

#### Gwybodaeth a Phrofiad

- Hanes o brofiad strategol ar lefel bwrdd mewn sefydliad cyhoeddus, preifat neu yn y trydydd sector;
- Y gallu i feithrin gweledigaeth ac arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau diffiniedig wrth geisio cyflawni nodau hirdymor, tymor canolig a byrdymor;
- Y gallu i ddangos ymrwymiad i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, eu gofaluwr a'u teuluoedd i ddeall eu hanghenion a'u dyheadau;
- Dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt;
- Y gallu i ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a diwylliant, ac ymrwymiad i hybu a phrif ffrydio'r Gymraeg.
- Y gallu i ddeall a hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth
- Gallu amlwg i weithio ar y cyd ac fel rhan o dîm i gyflawni nodau cyffredin;
- Y gallu i ddarparu, ac i annog eraill i ddarparu, her annibynnol a chraffu wrth gynnal perthynas adeiladol;
- Y gallu i ysgogi a datblygu'r bwrdd i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd;
- Tystiolaeth o ddealltwriaeth o lywodraethiant effeithiol

#### Priodoleddau Personol

- Ymrwymiad i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) a gwerthoedd y corff iechyd;
- Sgiliau rhyngpersonol cryf a sgiliau dylanwadu, a'r gallu i weithredu fel eiriolwr a llysgennad effeithiol;
- Craffter, a'r crebwyll i ddeall materion perthnasol ac i ddeall y berthynas rhwng y rhai sydd â diddordeb, gan ddangos barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;
- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn wydn.



## Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

### Y Meini Prawf sy'n Ddymunol

- Profiad amlwg o arweinyddiaeth a rheoli newid strategol gan gynnwys newid diwylliant;
- Dealltwriaeth o reoli risg a systemau rheoli a sicrwydd mewnol;
- Sgiliau Cymraeg;

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol; fodd bynnag, bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad i'r iaith a'r diwylliant, a dangos arweiniad i gryfhau a hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru (gweler yr Wybodaeth a'r Profiad Hanfodol uchod). Pan fydd ymgeiswyr am ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf dymunol, dylent roi syniad o'u sgiliau o ystyried y lefelau sgiliau canlynol.

Deall	Gallu deall rhai sgysiau sy'n gysylltiedig â gwaith
Darllen	Gallu darllen a deall rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol
Siarad	Gallu cyfrannu at rai sgysiau sy'n ymwneud â'r gwaith
Ysgrifennu	Gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol am bynciau pob dydd

### Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â [Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus](#).

## Ffeithiau allweddol am y swydd

**Lleoliad:** Tŷ Ynysmeurig, Parc Navigation, Abercynon, CF45 4SN.

Bydd hefyd angen i ddeiliad y swydd fynychu safleoedd y Bwrdd Iechyd a mynychu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol y Bwrdd. Er ein bod yn ailddechrau cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, mae rhai yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir o hyd, fel y bo'n briodol. Bydd cyfle hefyd i wneud rhywfaint o waith o bell.

**Ymrwymiad Amser:** 15 diwrnod y mis

**Hyd y penodiad:** Penodiad o 4 blynedd i ddechrau

**Tâl cydnabyddiaeth:** £69,840 y flwyddyn a chostau teithio a chynhaliaeth rhesymol



## Ffeithiau allweddol am y swydd

### Gwneud cais

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru:

<https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu cyflwyno, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais.

I wneud cais bydd angen ichi gyflwyno dwy ddogfen ategol:

- Curriculum Vitae llawn, a
- Datganiad personol yn manylu ar eich profiad, sut rydych yn bodloni'r disgrifiad rôl a manyleb y person a sut y gallech gyfrannu at rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' yn y ffurflen gais ar-lein. Gall methu â gwneud hynny neu fethu â dilyn y canllawiau isod olygu bod eich cais yn cael ei wrthod.

Os oes angen gwneud addasiadau i'ch galluogi i wneud cais neu os oes angen unrhyw gymorth neu ganllawiau arnoch, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn [PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru](mailto:PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru)

### Curriculum Vitae

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swyddi. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

**Ni ddylai'ch CV fod yn fwy na 3 tudalen.**



## Ffeithiau allweddol am y swydd

### Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf ym manyleb y person yn y pecyn hwn.

Dylai'r datganiad gynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf. Dylai'r enghreifftiau hyn ddisgrifio beth oedd eich rôl, a'r dull a ddefnyddiwyd gennych i sicrhau canlyniad penodol. Mae croeso i chi ddefnyddio enghreifftiau o brofiad proffesiynol a phrofiadau yn eich bywyd personol.

Mater i chi yw sut byddwch yn cyflwyno'r wybodaeth, ond bydd angen i'r panel cynghori ar benodiadau allu asesu sut mae'r enghreifftiau a ddarperir yn ymwneud â'r meini prawf ac felly rydym yn eich annog i osgoi defnyddio datganiadau sydd ond yn cyfeirio at y meini prawf heb roi enghreifftiau.

Byddwch cystal â chyfyngu'ch datganiad personol i **1000 o eiriau**.

Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r gofynion o ran hyd eich CV neu eich datganiad personol.

### Geirda

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

Er mwyn cadw'r safonau uchaf o ran uniondeb a phriodoldeb, ni allwn dderbyn Aelodau'r Senedd na gweithwyr Llywodraeth Cymru fel enwau cyswllt i roi geirda ar gyfer ceisiadau am aelodaeth o gyrrff cyhoeddus.

## Y Broses Ddethol

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn penodi Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Bydd y penodiad yn benodiad o bwys gan Weinidogion Cymru ac fe'i rheoleiddir o dan y [Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus](#).

Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cymorth yn ei phenderfyniadau gan Panel Asesu Cynghorol. Bydd y panel hwn yn cynnwys Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Moawia Bin-Sufyan, Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel, Mick Giannasi, Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru a Helen Arthur, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Busnes Corfforaethol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru. Wrth gynnal eu hasesiad o'r ymgeiswyr, rôl y Panel yw penderfynu'n wrthrychol pwy sy'n bodloni'r meini prawf dethol cyhoeddedig ar gyfer y rôl - mewn geiriau eraill, pwy sy'n addas i gael ei benodi i'r rôl. Judith Paget fydd cadeirydd y panel.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Bydd sesiwn rhanddeiliaid hefyd yn rhan o'r broses ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer, a bydd y rhain yn cynnwys unigolion o'r Bwrdd Iechyd a'i sefydliadau partner. Yn y sesiwn bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer drafod pwnc penodol a phwysig gyda rhanddeiliaid – dewisir y pwnc yn nes at yr amser. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i farnu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** penodedig ar gyfer y rôl.

Dyddiad cau'r hysbyseb	I'w gadarnhau	
Sifftio	w/c 24 Hydref 2022	
Sesiwn rhanddeiliaid	29 Tachwedd 2022	
Cyfweiliadau'n dechrau	30 Tachwedd 2022	
Cadarnhau'r penodiad	Ionawr/Chwefror 2023	
Dechrau yn y swydd	1 Ebrill 2023	

## Y Broses Ddethol

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlbh amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Cedwir mewn cysylltiad â'r ymgeiswyr a gafodd eu cyf-weld, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Yn ogystal â'r sesiwn rhanddeiliaid a chyf-weld bydd yn ofynnol i'r Ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidogion fynychu gwrandawriad cyn penodi a gynhelir gan y [Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#). Bydd y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol gael ei chynnal.

## Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus.

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

### Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweiliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os hoffech gael cyfweiliad gwarantedig, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio [PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru](mailto:PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru) i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.



# Datganiad am Amrywiaeth

## Cymhwysedd

Bydd unigolyn yn anghymwys i'w benodi:

- os y'i cafwyd yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'i ddedfrydu i garchar (boed yn garchar gohiriedig neu fel arall) am gyfnod o 3 mis o leiaf a heb gael yr opsiwn o ddirwy;
- os yw'n destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu os yw wedi gwneud cyfaddawd neu drefniant â'r credydwy
- os yw wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
- os yw'n aelod cyfredol o fwrdd corff gwasanaeth iechyd arall yng Nghymru;
- os yw'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol;
- os yw, neu os yw wedi bod o fewn y flwyddyn flaenorol, mewn cyflogaeth â thâl yn un o Ymddiriedolaethau neu Fyrddau Iechyd Cymru.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod fod swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn swydd sy'n anghymhwysu unigolyn rhag bod yn aelod o Senedd Cymru, a hynny o dan [Orchymyn Senedd Cymru \(Anghymwysu\) 2020](#).

## Gwrthdaro buddiannau

Wrth ichi wneud cais, gofynnir ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

## Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddidoli'n llwyddiannus i gyfweiliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

# Datganiad am Amrywiaeth

## Gwneud penodiad

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

## Enwau Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol neu i wneud cais am y rôl, cysylltwch â: Tîm Penodiadau Cyhoeddus, Uned Cyrff Cyhoeddus, E-bost: [PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru](mailto:PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru)

I gael rhagor o wybodaeth bellach am rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, cysylltwch â:

Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru E-bost: [pstodgforhsscenhswales@llyw.cymru](mailto:pstodgforhsscenhswales@llyw.cymru) /

Georgina Galletly, Cyfarwyddwr Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Anfonwch e-bost at: [georgina.galletly2@wales.nhs.uk](mailto:georgina.galletly2@wales.nhs.uk)

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i [www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus](http://www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus)

## Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â [PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru](mailto:PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru).

## Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â [PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru](mailto:PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru).

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.

Russell George MS  
Chair, Health and Social Care Committee  
Senedd Cymru / Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

1 February 2023

Dear **Russell**

### **Prioritisation of the Rare Disease Action Plan for Wales 2022-26**

I am writing to the Committee in light of the recent budget scrutiny session that the Committee undertook with Ministers and officials on 11 January 2023.

While it is understood that the Welsh NHS continues to find itself in an extremely challenging and pressurised environment both operationally and financially during this winter period, I am concerned that in the evidence provided by the Health Minister, she failed to prioritise the Welsh Government's commitment to improving the lives of people living with a rare disease in Wales during the forthcoming 2023-24 financial year.

As a founding member of the Cross Party Group on Rare, Genetic and undiagnosed conditions, you will recall when the Rare Disease Action Plan for Wales (RDAPW) 2022-26 was published last summer, the Welsh Health Circular (WHC) that accompanied the Plan, set out clear expectations for Health Boards to facilitate and implement the priorities and actions in the Plan over its lifetime. The WHC said:

*"Health boards should take account of the priorities for rare diseases when planning their services and developing their Integrated Medium-Term Plans (IMTPs)."*<sup>1</sup>

However, in the Health Minister's evidence to the Committee, she was unambiguous in stating that she had issued new guidance to Health Boards, for this forthcoming financial year, based on six identified priorities. She said:

*"What we've got to do is to try and give them (Health Boards) an indication of where we'd like them to focus their spend. In the guidelines in preparation for their IMTPs, I've just made it absolutely clear that I want them to focus on six areas."*<sup>2</sup>

She went on to set out what those six priorities were:

1. Delayed transfers of care
2. Improving access to primary and community care
3. Urgent and emergency care (six goals)
4. Planned care and recovery
5. Cancer
6. Mental Health (including CAMHs)

We know from the *National Clinical Framework: A Learning Health and Care System* published in 2021, that the Government's strategic vision of a health system in Wales is one that is "co-ordinated nationally", because greater central direction helps shape behaviour but is "delivered locally" by those directly responsible for their respective populations, through collaborations, between health organisations and partners. The Government states that this approach "ensures local ownership" and a "thriving innovation agenda."

That means if the Welsh Government does not prioritise and coordinate the delivery of a particular policy agenda with Health Board partners, then there is no formal requirement for those partners to implement that agenda into their medium-term planning cycle.

Given that the RDAPW is still in its first year of implementation, it is absolutely critical that Health Boards do not lose sight of embedding the four key priorities, both in financial and operational terms, into their IMTPs. Those four priorities are:

**Priority 1 - Helping patients get a final diagnosis faster**

**Priority 2 - Increasing awareness of rare diseases amongst healthcare professionals**

**Priority 3 - Better coordination of care**

**Priority 4 - Improving access to specialist care, treatment, and medicines**

As you know, the Rare Diseases Implementation Group (RDIG) brings together delivery partners to develop and monitor Wales progress. Unlike other clinical implementation groups in Wales, the RDIG has had no core funding to help them facilitate this work; so they are already at a disadvantage. Moreover, as the new NHS Executive, which will bring together all the national clinical programme networks and implementation groups, continues to evolve, this will also impact on the operating function of the RDIG in terms of its monitoring and reporting timelines.

We know that people with rare diseases and their families often face a lifetime of complex care, which is often disjointed and that has a significant and detrimental impact on their education, financial stability, mobility and mental health. Therefore, it is vitally important that the voice of the rare disease community is not lost in this current extremely challenging period. Only by fully prioritising and committing to the comprehensive implementation of the RDAPW, will Wales have the ability and opportunity to achieve significant change and improvement in the care and treatment of people living with a rare disease.

I hope that as a Committee, through your scrutiny deliberations and reporting to the Senedd, you will take this matter into account and request that Government do not lose sight of the many policy commitments it has made beyond the six priority areas highlighted by the Minister, particularly those that effect this particularly vulnerable group of patients and their families.

Best wishes,

A handwritten signature in black ink that reads "Victoria Hayes".

Victoria Hayes

Director of Public Affairs, Northern Cluster, Kyowa Kirin

## References

---

<sup>1</sup> Welsh Health Circular (2022/017), *Wales Rare Diseases Action Plan 2022 – 2026*, Welsh Government, 16 June 2022.  
[https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/wales-rare-diseases-action-plan-2022–2026-whc-2022-017\\_3.pdf](https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/wales-rare-diseases-action-plan-2022–2026-whc-2022-017_3.pdf)  
(As accessed on 1 February 2023).

<sup>2</sup> Transcript of Health and Social Care Committee (Section 8), 11 January 2023.  
<https://record.senedd.wales/Committee/13294>  
(As accessed on 1 February 2023).



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Russell George AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

Annwyl Russell,

13 Chwefror 2023

### **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) - Datganiad o fwriad polisi**

Yn sgil cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) i'r Senedd ar 13 Chwefror 2023, amgaeaf gopi o ddatganiad o fwriad polisi. Darperir y ddogfen hon i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

### **Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

**Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-  
ddeddfwriaeth**

**13 Chwefror 2023**

## **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

### **Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth**

#### **Cyflwyniad**

1. Mae'r ddogfen hon yn dynodi'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y grym i'w gwneud yn rhinwedd y diwygiadau a wneir i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Deddf Caffael 2023 (Bil sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, ac a allai fod yn destun gwelliannau pellach wrth i'r Bil fynd drwy'r broses seneddol) gan Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) ("y Bil").
2. Lluniwyd y Datganiad i gynorthwyo pwyllgorau wrth iddynt graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig. Mae manylion llawn am weithdrefn Senedd Cymru ("y Senedd") sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn wedi eu nodi yn Nhabl 1 ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn y ddogfen hon.
3. Mae'r Bil yn darparu pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda GIG Cymru a rhanddeiliaid i sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.
4. Yn gryno, mae darpariaethau'r Bil yn seiliedig ar y ddau bŵer canlynol:
  - i. "Pŵer datgymhwyso" i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso, drwy reoliadau, ddarpariaethau yn y Ddeddf Caffael a fyddai (wedi iddi gael ei phasio) fel arall yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd GIG yng Nghymru; a
  - ii. "Pŵer creu" i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu a gweithredu cyfundrefn gaffael amgen newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd GIG yng Nghymru, a hynny drwy is-ddeddfwriaeth.
5. Mae tabl sy'n disgrifio'r pŵer a'r bwriad polisi ar gael yn **Atodiad A**.



Atodiad A

Adran o'r Bil	Disgrifiad o'r pŵer	Rheswm dros y pŵer, a'i fwriad polisi
<b>Pŵer i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023 mewn perthynas â chaffael GIG yng Nghymru ("pŵer datgymhwyso")</b>		
2	<p>Pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023, i'r graddau y maent yn anghyson â darpariaethau amgen a wneir mewn cysylltiad â chaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae hyn i'w wneud drwy fewnosod adran newydd (y bwriedir iddi fod yn adran 116A ar hyn o bryd) yn Neddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU.</p> <p>Mae is-adran (1) o'r adran newydd 116A yn darparu'r pŵer y cyfeirir ato uchod i Weinidogion Cymru, sydd i'w arfer drwy wneud rheoliadau (drwy offeryn statudol).</p> <p>Nid yw'r pŵer ond yn gymwys i 'gaffael gwasanaethau iechyd wedi ei reoleiddio yng Nghymru' ('<i>regulated health service procurement in Wales</i>'). Mae is-adran (2)(a) o'r adran newydd 116A yn diffinio hyn fel caffael nwyddau a gwasanaethau a gyflawnir gan 'awdurdod</p>	<p><b>Rheswm dros y pŵer:</b></p> <p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso deddfwriaeth gaffael mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd GIG wedi ei reoleiddio yng Nghymru. Mae'r pŵer datgymhwyso yn angenrheidiol er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng darpariaethau Deddf Caffael 2023 a'r gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd ar gyfer Cymru sydd i'w sefydlu gan y rheoliadau dilynol.</p> <p><b>Bwriad polisi'r pŵer:</b></p> <p>Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso darpariaethau yn y Bil Caffael a fyddai fel arall yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd GIG yng Nghymru i'r graddau y mae darpariaeth amgen wedi ei gwneud yn hynny o beth yn unol â'r pŵer creu a ddisgrifir isod. Nid dadreoleiddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru yw bwriad y pŵer hwn; yn hytrach, ei fwriad yw datgymhwyso deddfwriaeth gaffael pan fo caffael</p>

Tudalen y pecyn 55

	<p>perthnasol' (<i>'relevant authority'</i>) sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau a wneir gan reoliadau o dan adran newydd 10A sydd i'w mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae i 'awdurdod perthnasol' yr ystyr a roddir iddo yn yr adran newydd 10A (gweler isod i gael rhagor o fanylion).</p>	<p>gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cael ei reoleiddio o dan y gyfundrefn newydd.</p> <p>Mae'r diffiniad o 'awdurdod perthnasol' yn cael ei adlewyrchu yn y "pŵer creu" a ddisgrifir isod.</p> <p>Bydd y rheoliadau'n dilyn y <b>weithdrefn gadarnhaol ddrafft</b> ac felly byddant yn ddarostyngedig i graffu gan y Senedd ac i gytundeb y Senedd.</p>
<p><b>Pŵer i ddatblygu a gweithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru ("pŵer creu")</b></p>		
<p>3</p>	<p>Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys i awdurdodau perthnasol mewn perthynas â chaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn ogystal â nwyddau a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny.</p> <p>Bydd hyn yn cael ei wneud drwy ddiwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i fewnosod adran newydd (adran 10A).</p>	<p><b>Rheswm dros y pŵer:</b></p> <p>Mae'r pŵer creu hwn yn angenrheidiol i wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion ar awdurdodau perthnasol mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.</p> <p>Un o brif ddibenion cymryd y pŵer yw rhoi opsiwn i sefydlu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd sydd, i raddau, yn alinio â chynigion a gyflwynir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn Lloegr, o'r enw'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr (<i>'Provider Selection Regime'</i> neu PSR)<sup>1</sup>.</p>

<sup>1</sup> Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr: ymgynghoriad ategol ar fanylion y cynigion ar gyfer rheoliadau - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

		<p>Nid yw'r pŵer creu yn y Bil yn rhagnodi manylion ynghylch cynnwys unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd ac mae manylion terfynol y rheoliadau PSR a'r canllawiau gweithredol cysylltiedig wrthi'n cael eu datblygu gan DHSC. Felly, i roi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu'n briodol unwaith y mae manylion terfynol y PSR arfaethedig yn Lloegr yn hysbys, bydd cynnwys y gyfundrefn newydd arfaethedig yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r rheoliadau yn y dyfodol a chanllawiau gweithredol y gyfundrefn newydd. Bydd hyn hefyd yn darparu elfen o hyblygrwydd i lunio'r gyfundrefn newydd i ddiwallu heriau ac anghenion dinasyddion Cymru yn y dyfodol.</p> <p><b>Bwriad polisi'r pŵer:</b></p> <p>Nod cyflwyno'r PSR yn Lloegr yw rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn GIG Lloegr a sefydliadau llywodraeth leol yn Lloegr drefnu gwasanaethau iechyd sy'n hyrwyddo orau fuddiannau cleifion a'r boblogaeth yn eu hardaloedd, yn ogystal ag ystyried y gwerth am arian cyhoeddus. Cynigir y bydd y PSR yn symud i ffwrdd o sefyllfa o gystadleuaeth o dan yr holl amgylchiadau, a thuag at system o gydweithio a phartneriaeth gyda darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol.</p> <p>O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y newidiadau gweithredol i gaffael gwasanaethau iechyd yn Lloegr o dan y PSR yn cael</p>
--	--	---

		<p>effaith ar allu GIG Cymru i gynnal a sicrhau gwasanaethau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Aflunio'r platform caffael gwasanaethau iechyd cyfochrog presennol rhwng Cymru a Lloegr;</li><li>• Cyfyngu ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd gan ddarparwyr iechyd ar y cyd rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru, a manteision cysylltiedig arbedion maint ariannol ac adnoddau;</li><li>• Cyfyngu ar GIG Cymru o ran cael mynediad at fframweithiau gwasanaethau gofal iechyd sy'n bodoli eisoes;</li><li>• Cyfyngu ar awydd cyflenwyr i gyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru, er ei bod yn anodd rhagfynegi graddau'r effaith ar hyn o bryd gan y bydd yn dibynnu ar ffactorau megis ymateb y farchnad a chyflenwyr i'r newidiadau a gyflwynir.</li></ul> <p><b>Bwriad polisi posibl rheoliadau yn y dyfodol:</b> Bydd y rheoliadau yn y dyfodol yn ceisio lleddfu'r effeithiau a ddisgrifir uchod drwy ddatblygu rheoliadau a chyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yng Nghymru sydd, i raddau, yn alinio â PSR DHSC a gyflwynir yn Lloegr.</p> <p>Nod y dull gweithredu hwn fydd sicrhau bod caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr yn parhau i weithredu ar sail debyg. Bydd hyn yn adfer tegwch wrth</p>
--	--	--

